**Cynghrair Cymunedau Diwydiannol Cymru**

**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol ar Gymunedau Diwydiannol, a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2021**

## 1. Yn bresennol:

Vikki Howells AS, Cwm Cynon; Sam Rowlands AS, Gogledd Cymru; Sarah Murphy AS, Pen-y-bont ar Ogwr; Luke Fletcher AS, Gorllewin De Cymru; Robin Lewis, Swyddfa Vikki Howells AS; Jillian Purvis, Swyddfa Huw Irranca-Davies; y Cynghorydd David White, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr; y Cynghorydd Jayne Brencher, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf; y Cynghorydd Dai Davies, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent; y Cynghorydd Gareth Jones, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf; y Cynghorydd Graham Thomas, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf; y Cynghorydd Anthony Hunt, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen; Peter Slater, Cynghrair Cymunedau Diwydiannol Cymru; Phil O'Mara, Ysgrifenyddiaeth Genedlaethol, y Gynghrair Cymunedau Diwydiannol.

## 2. Ymddiheuriadau

Cafwyd ymddiheuriadau gan: Joel James AS, Canol De Cymru; y Cynghorydd John Hill, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent; Carys Lewis, Senedd Cymru, Huw Irranca-Davies AS, Ogwr.

## 3. Croeso

Croesawodd Vikki Howells AS bawb i'r cyfarfod, a myfyriodd ar waith y grŵp dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys ei waith ar bynciau a oedd yn gysylltiedig ag effaith economaidd y pandemig a'r Cynllun Adfer yn sgil COVID. Yn ogystal, cymeradwyodd ansawdd yr ymchwil a wnaed gan y Gynghrair Cymunedau Diwydiannol ar faterion fel agenda codi'r gwastad, cymorth gwladwriaethol a Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

## 4. Ethol Cadeirydd

Cafodd Vikki Howells AS ei hethol yn Gadeirydd y Grŵp.

## 5. Ethol Ysgrifennydd

Cafodd Peter Slater, Cyfarwyddwr Cynghrair Cymunedau Diwydiannol Cymru, ei ethol yn ysgrifennydd y Grŵp.

## 6. Cylch Gorchwyl

Cafodd y Cylch Gorchwyl ar gyfer y grŵp (sydd wedi'i atodi) ei gymeradwyo.

## 7. Aelodau'r Grŵp

Cafodd aelodau’r Grŵp eu cadarnhau fel a ganlyn: Vikki Howells AS (Cadeirydd), Cwm Cynon; Huw Irranca-Davies AS, Ogwr; Sarah Murphy AS, Pen-y-bont ar Ogwr; Luke Fletcher AS, Gorllewin De Cymru; Joel James AS, Canol De Cymru; Sam Rowlands AS, Gogledd Cymru; y Cynghorydd David White, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr; Peter Slater (Ysgrifennydd), Cynghrair Cymunedau Diwydiannol Cymru.

## 8. Pynciau i’w trafod yn y dyfodol gan y Grŵp Trawsbleidiol

Cafwyd trafodaeth eang ynghylch y pynciau posibl y gallai’r grŵp roi sylw iddynt yn ei gyfarfodydd yn y dyfodol, gan gynnwys: agenda codi’r gwastad; gweithgynhyrchu a'r economi werdd; rheoli cymorthdaliadau (cymorth gwladwriaethol); datgarboneiddio'r diwydiant dur; pobl ifanc a'r farchnad lafur; rôl seilwaith yn y broses o gefnogi buddsoddi economaidd; ac effaith y chwyldro digidol ar natur gwaith a'r farchnad lafur.

Yn sgil y drafodaeth honno, cytunwyd y byddai'r Cadeirydd a'r Ysgrifennydd yn ystyried yr awgrymiadau uchod cyn cyfarfod nesaf y grŵp yn nhymor yr hydref.

Peter Slater
Ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Gymunedau Diwydiannol